

Unigrwydd

Darlleniad 1: Salm 22: 1-22

Darlleniad 2: Mathew 18: 15-20, 28: 16-20

Arglwydd, aethom i deimlo'n unig iawn yn ein heglwysi. Gostyngodd ein rhifau, aeth addolwyr yn brin, diflannodd y plant a'u teuluoedd o gymaint o'n hoedfaon. Rydym bron ag anobeithio am oedfa'r nos, heb sôn am y dyfodol. Cawn aml i Sul unig, neu Sul gwag fel y mae rhai'n ei alw, a neb yma i bregethu'r Gair i ni. Mae'r cwbl, O! Arglwydd, yn ychwanegu at yr ymdeimlad o unigrwydd yn ein plith. Ofnwn fod cymaint wedi'n gadael, gan gefnu arnat ti, yr efengyl a'th Eglwys. Mae'r unigrwydd bron â'n llethu. Aeth y gwaith o fugeilio a chynnal dy eglwys yn faich ar sawl un ohonom. Prin y medrwn ystyried cenhadu - buasem yn rhy unig yn y gwaith hwnnw. I ble'r aeth pawb? Pam yr ydym mor unig? Rydym yn deall profiad y Salmydd, yn ei unigrwydd yntau, pan ofynnodd, 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael ...'

Diolch, Arglwydd, am brofiadau dy bobl o'th gwmni di.

'Agos yw yr Arglwydd at y rhai oll a alwant arno, ie at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd. Nesáu at Dduw sydd dda inni.'

Deisyfwn am gymorth dy Lân Ysbryd fel y byddwn yn teimlo dy bresenoldeb gyda ni. Deisyfwn am inni gael cymundeb â thi ac â'th annwyl Fab, Iesu Grist. Cofiwn mai ef a'n dysgodd i weddïo, ein Tad, gan ddangos ei ddyhead am i ni gael ymdeimlo â'th agosrwydd. Cofiwn am y modd y bu iddo alw'r disgyblion ato - ni allai gyflawni ei waith ar ei ben ei hun, yr oedd am iddynt fod gydag ef. Addawodd ef hefyd fod gyda ni, pa le bynnag y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn ei enw ef. Cofiwn am ei gomisiwn i'w ddisgyblion:

'Ewch a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân ... ac yr

wyf gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.’

Arglwydd, maddau inni am feddwl ein bod yn unig. Arglwydd, maddau inni am deimlo'n unig a thithau'n bresennol gyda ni. Arglwydd, maddau inni am yr unigrwydd a ddaw i'n rhan pan fyddwn yn anghofio dy addewidion mawr, ac am anghofio dy fod yn Dduw sy'n eu cadw bob amser. Arglwydd, maddau inni am ymdeimlo ag unigrwydd yn ein gwaith a'n cenhadaeth, a thithau wedi addo cydweithio â ni, ac wedi addo bod gyda ni. Arglwydd, daw geiriau'r emynydd yn eiriau i ninnau:

‘Awr o'th bur gymdeithas felys,
Awr o weld dy wyneb-pryd,
Sy'n rhagori fil o weithiau
Ar bleserau gwag y byd:
Mi ro'r cwbl
Am gwmpeini pur fy Nuw.’

Arglwydd, dyro inni fedru rhoi'r cwbl hefyd am gwmpeini eraill. Cofiwn mai cymdeithas yw dy eglwys, a bod angen cryfhau'r gymdeithas hon. Cynorthwya ni i agor ein llygaid i weld cyfle i genhadu oddi mewn ac oddi allan i furiau ein hadeiladau. Cynorthwya ni i agor ein llygaid i weld y posibiladau a ddaw trwy uno cynulleidfaoedd ac ysgolion Sul. Cynorthwya ni i agor ein llygaid i weld nad oes rhaid inni fod yn unig a gwan.

Cyflwynwn eraill i'th ofal grasol, yn enwedig y rhai sy'n unig. Cofiwn amdanynt ger dy fron ... yn unigolion, eglwysi eraill, yr hen a'r methodig, y diymgeledd a'r digartref, y gwrthodedig a'r galarus. Gweddiwn yn daer y byddant yn ymdeimlo â'th agosrwydd di, O Arglwydd. Hyd y bo modd, bydded iddynt ymdeimlo â'th bresenoldeb ynom ni, a thrwom ni. Cymhwysa ni fel unigolion ac eglwysi i leddfu unigrwydd eraill, ac unigrwydd ein gilydd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Eric Jones